OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1724 (Cy.165)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) (Dirymu) 2010

Gwnaed - - - -	*30 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Gorffennaf 2010*
Yn dod i rym - -	*25 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 13, 56(1), 60 a 61(5) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) (Dirymu) 2010 a deuant i rym ar 25 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010(**2**).

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

30 Mehefin 2010

(**1**) 2006 p.47.
(**2**) O.S. 2010/1291 (Cy.110).